

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Gorffennaf 9:

10.00 a.m. - Morgan Williams, Pwllheli

Dydd Sul, Gorffennaf 16:

10.00 a.m. - Gwilym Charles Williams
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 23:

10.00 a.m. - Andrew Settatre
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 30:

10.00 a.m. - Oedfa

Dydd Sul, Awst 6

10.00 a.m. - Y Parchg Olwen Williams

Dydd Sul, Awst 13

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

Dydd Sul, Awst 20

10.00 a.m. - Y Paerchg Cath Williams

Dydd Sul, Awst 27

10.00 a.m. - Y Gweinidog

CARMEL

Dydd Sul, Gorffennaf 9:

5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Dydd Sul, Gorffennaf 16:

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Hughes

Dydd Sul, Gorffennaf 23:

5.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 30:

5.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Awst 6

10.00 a.m. a 5.00 p.m. Uno yn Jerwsalem

Dydd Sul, Awst 13

10.00 a.m. a 5.00 p.m. Uno yn Jerwsalem

Dydd Sul, Awst 20

10.00 a.m. a 5.00 p.m. Uno yn Jerwsalem

Dydd Sul, Awst 27

5.00 p.m. - Y Gweinidog



BYW Y BEIBL

Ar un ystyr, mae hi dal yn 2016 ar *Gronyn!* Dyna 'Flwyddyn y Beibl Byw' a drefnwyd gan Gymdeithas y Beibl, Gobaith i Gymru a'r Cyngor Ysgolion Sul. Eleni, 'Blwyddyn Byw y Beibl' yw hi ond fel y gwelwch dros y ddalen, dal i ddefnyddio'r logo 'Beibl Byw' a wnawn ni. Ond wnawn ni ddim poeni gormod chwaith gan mai bwriad 'Beibl Byw' a 'Byw y Beibl' fel ei gilydd yw ceisio gwneud y Beibl yn gyfarwydd ac yn berthnasol trwy gael pobl, mae'n debyg, i'w ddarllen ac i fyfyrio arno ac i'w weithredu.

Gan fod cyfrolau fel *beibl.net* a'r *Beibl Canllaw* wedi eu cyhoeddi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n bosibl iawn fod mwy o ddarllen ar y Beibl yn ein plith nag ers blynnyddoedd. Ac mae hynny'n beth calonogol iawn. Ac eto, rhaid cofio nad yw darllen y Beibl o reidrydd yn cyflawni dim. Mae rhai ohonom yn cofio am bell ddisbarth Ysgol Sul nad oedd yn gwneud dim ond darllen y Beibl. Mae'n swnio'n beth ardderchog i'w wneud. Beth well na gadael i'r Beibl ei hun siarad â ni, yn hytrach na'n bod ni'n ei drafod a'i ddadansoddi? Ond yn aml iawn, wrth ddarllen mewn gylch, gyda phawb yn darllen adnod ar y tro, roedd yn anodd iawn i'r darllen fod yn ystyrion ac i'r neges fod yn glir. Gall darllen slafaid a difeddwl gan unigolyn fod yr un mor wag o ystyr ar brydiau.

Mae angen mwy na darllen; mae angen myfyrion ar yr hyn a ddarllenir. Mae i bob tudalen a phob pennod ac adnod

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 737: 09 Gorffennaf, 2017

Mwy na darllen

o'r Beibl eu neges, ac mae'n amhosibl cael gafael ar y neges honno heb roi'r meddwl ar waith. Heb ystyried yr hyn a ddarllenwyd, heb fyfyrion rhywfaint arno does dim modd gweld y neges sydd gan Dduw ar ein cyfer. Nid yw hynny'n golygu o reidrydd ein bod yn ei astudio'n fanwl iawn na'n bod yn dod yn arbenigwyr ar gynnwys y Beibl, ond y mae'n golygu meddwl am y geiriau ac ystyried beth yw eu neges i ni.

Ond mae hefyd angen fwy na myfyrion. Nid deall neges y Beibl yn unig sydd ei angen; mae hefyd angen gweithredu'r neges honno. Waeth heb â deall fod angen edifeirwch heb i ni edifarhau. Waeth heb â gwybod fod angen credu yn Iesu Grist heb i ni gredu. Waeth heb a sylweddoli fod rhaid dilyn Iesu ac ufuddhau iddo heb wneud y pethau hynny.

Nid cyfrol farw a sych yw'r Beibl ond llyfr sy'n dal i lefaru mor eglur heddiw ag erioed. Mae'n briodol defnyddio'r term 'Beibl Byw', ond er mwyn iddo fod yn ymadrodd cwbl addas mae'n rhaid i'r rhai sy'n ei ddarllen 'Fyw'r Beibl' trwy ymateb i'w wahoddiad ac ufuddhau i'w orchmynion. Darllenwn y Beibl er mwyn gwybod ei neges; myfyrwn arno er mwyn ei ddeall; a gweithredwn ef er mwyn ei fyw.

Y RHIFYN OLAF AM Y TRO

Bydd y Gronyn nesaf ddiwedd Awst



CYRSIAU HAF 2017

19 67
CWRS IEUENCTID
COLEG Y BALA

**ANHREFN
AWST**

SO

Souled Out

Gorffennaf 31 - Awst 4
blynyddoedd 7-11

Awst 14 - 17
plant 8-12 oed

Awst 19 - 24
15+ oed
cwrs dwyieithog



I archebu eich lle neu am fwy o fanylion:
colegybala@ebcpw.org.uk 01678 520565

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Bydd fodlon i'm gwaredu, O Dduw; O ARGLWYDD, **BEIBL BYW** brysia i'm cynorthwyo. Doed cywilydd, a gwaradwydd hefyd, ar y rhai sy'n ceisio fy mywyd; bydded i'r rhai sy'n cael pleser o wneud drwg imi gael eu troi yn eu holau mewn dryswch. Bydded i'r rhai sy'n gweiddi, "Aha! Aha!" arnaf droi yn eu holau o achos eu gwaradwydd. Ond bydded i bawb sy'n dy geisio di lawenhau a gorfoleddu ynot; bydded i'r rhai sy'n caru dy iachawdwriaeth ddweud yn wastad, "Mawr yw Duw." Un tlawd ac anghenus wyf fi; O Dduw, brysia ataf. Ti yw fy nghymorth a'm gwaredydd; O ARGLWYDD, paid ag oedi (Salm 70).

Heddiw

Bydd yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch yng ngofal Morgan Williams, Pwllheli. Roedd Morgan efo ni am rai wythnosau cyn y Nadolig yn cael profiad o waith gweinidog. Ers hynny, mae wedi bod yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug gyda gweinidogion eraill. Gyda llaw, mae ei nain, Mrs Megan Williams, Llanrug yn

90 oed yr wythnos hon, a dymunwn Benblwydd Hapus iawn iddi.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan Y Parchg Marcus Robinson.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

Ni oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Gwyliau

Mae'r Gweinidog oddi cartref o ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8 hyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 15.

Penblwydd Hapus

Dymunwn Benblwydd Hapus i Mrs Buddug Hughes, 22 Ffordd Carneddi, Bethesda a fydd yn 90 oed yn ystod yr wythnos.

Te Mefus

Gwnaed elw o £720 at Gronfa Capel Bethlehem, Talybont yn y Te Mefus a gynhaliwyd yn festri'r capel nos Fercher, Gorffennaf 28. Diolch unwaith eto am y gefnogaeth ar y noson ac am y rhoddion a gafwyd.

Swper Bwrlwm

Bydd cyfeillion Bwrlwm Talybont yn mynd am Swper i Glwb Golff Caernarfon nos Wener, Gorffennaf 14.

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Gorffennaf 11 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Ffair Haf

Cynhelir Ffair Haf yn festri Capel Coch am 2.00 o'r gloch ddydd Mercher, Gorffennaf 26 er budd 'Apel Corwynt Cariad', sef apel Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol ar Ynysoedd y Pilipinas (Philippines). Bydd amryw o stondinau. Mae angen nwyddau ar gyfer y rhain os gwelwch yn dda. Pris Mynediad fydd £1 (yn cynnwys paned a bisged).

Cyfarfod Chwarter

Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarter Gogledd Arfon yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno nos Fercher diwethaf.

Cafwyd cyflwyniad gan y Parchg Aled Davies, Chwilog i 'Blwyddyn Byw'r Beibl' dan nawdd y Cyngor Ysgolion Sul, Gobaith i Gymru a Chymdeithas y Beibl. Mae'r cynllun hwn eleni yn dilyn 'Blwyddyn y Beibl Byw' y llynedd.

Ymdrech fu'r cyfan i dynnu sylw at y Beibl ac i annog eglwysi i ddefnyddio'r adnoddau helaeth sydd ar gael i'w helpu i ddarllen y Beibl ac i rannu ei neges ag eraill. Nid cynllun ffurfiol mohono ond ymdrech i ddod â'r Beibl i sylw pobl, ac i adael i'r Beibl ei hun siarad â phobl.

Cafwyd hefyd adroddiad gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon am Gyfarfodydd Blynnyddol Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd yn Rhydaman yn ddiweddar.

Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth Arfon am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth, Gorffennaf 11 yng nghapel Baladeulyn.

Cyhoeddiadau'r Haf

Dyma restrau o oedfaon yr Ofalaeth dros yr haf.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Gorffennaf 9:
5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Dydd Sul, Gorffennaf 16:
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Gorffennaf 23:
5.00 p.m. - Miss Eleri Jones

Dydd Sul, Gorffennaf 30:
Dim Oedfa

Dydd Sul, Awst 6
Dim Oedfa

Dydd Sul, Awst 13
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Dydd Sul, Awst 20
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Awst 27
5.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

BETHLEHEM

Dydd Sul, Gorffennaf 9:
2.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Dydd Sul, Gorffennaf 16:
2.00 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Gorffennaf 23:
2.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 30:
2.00 p.m. - Y Parchg John Gwilym Jones

Awst
Dim oedfa trwy'r mis